



BELLTOWNPOWER

# Waun Maenllwyd Wind Energy Hub Cwestiynau cyffredin - 2022



Cwestiynau cyffredin	Ateb
<p><b>Pwy yw Belltown Power?</b></p>	<p>Cwmni ynni glân sydd wedi ennill ei blwyf yn y DU ac sydd ar flaen y gad o ran datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru, yr Alban a Lloegr yw Belltown Power. Wedi'i sefydlu yn 2013 gan dîm o weithwyr proffesiynol hynod brofiadol ym maes ynni adnewyddadwy, rydyn ni wedi llwyddo i ddarparu dros 200MW o gapasiti ynni gwynt, solar ac ynni dŵr sydd bellach ar waith ledled y DU, gan gynnwys Fferm Wynt Tirgwynt 24MW yng Ngharno a Fferm Wynt Frodsham 50MW yn Swydd Gaer.</p> <p>Rydyn ni wedi ymrwmo i gyfrannu at y broses o bontio i ynni adnewyddadwy, carbon isel a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, ac wrthi'n datblygu dros 1GW o brosiectau gwynt a solar heb gymhorthdal yn y DU.</p> <p>Mae gan Belltown werthoedd datblygu cryf a chadarn ac rydyn ni'n cymryd rhan mewn trafodaethau tryloyw, agored pwrpasol gyda chymunedau a rhanddeiliaid allweddol. Mae cymunedau, addysg a'r amgylchedd wrth wraidd popeth a wnawn.</p>
<p><b>Sut ddaethoch chi o hyd i'r safle hwn?</b></p>	<p>Mae Belltown wedi cynnal proses helaeth o nodi safleoedd a mapio cyfyngiadau er mwyn dod o hyd i'r ardaloedd datblygu gwyntog gorau gyda'r lleiaf o gyfyngiadau ar gyfer ffermydd gwynt yma yng Nghymru. Roedd y broses hon yn cynnwys adolygu allbynnau dadansoddiad gofodol Llywodraeth Cymru ei hun a gyflwynwyd yn fframwaith datblygu "<u>Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040</u>", a nododd Ardaloedd Wedi'u Rhag-asesu lle ceir rhagdybiaeth o blaid newid y dirwedd.</p> <p>Sgoriodd ardal Hyb Ynni Gwynt Waun Maenllwyd yn uchel ym mhob un o'r meini prawf sgorio. Yn ogystal, mae tua hanner y safle wedi'i leoli o fewn un o'r Ardaloedd Wedi'u Rhag-asesu uchod, sy'n golygu ei fod wedi sgorio'n uchel yn nadansoddiad gofodol y Llywodraeth ei hun.</p>
<p><b>Beth sy'n digwydd pan fydd technoleg tyrbinau ffermydd gwynt fel fferm wynt yn cyrraedd diwedd eu hoes?</b></p>	<p>Fel rhan o'r broses gydsynio, cytunir ar gynllun datgomisiynu gyda'r awdurdod lleol a bydd mecanweithiau ariannol ar waith i sicrhau bod y tyrbinau'n cael eu symud ar ddiwedd oes y prosiect. Fodd bynnag, efallai y bydd rhai traciau'n aros.</p> <p>O ran y dechnoleg ei hun – mae modd ailgylchu tua 85% – 90% o gyfanswm màs tyrbîn gwynt gyda chydrannau fel dur, sment, gwifren gopr, electroneg a gerïadau â phrosesau ailgylchu sefydledig. Er bod llafnau tyrbinau yn fwy heriol i'w hailgylchu, mae gweithgynhyrchwyr wrthi'n gweithio tuag at alluogi ailgylchu llafnau a'u cynhyrchion cyfansawdd. Yn yr un modd, mae llawer o gwmnïau newydd yn cynnig gwasanaethau o'r fath gyda'r diwydiant yn y broses o aeddfedu. Ym mis Mehefin 2021, fe wnaeth WindEurope, cymdeithas fasnach flaenllaw sy'n cynrychioli'r diwydiant gwynt yn Ewrop, ymrwmo i ailddeddfyddio, ailgylchu neu adfer 100% o'r llafnau sydd wedi'u datgomisiynu.</p>

Cwestiynau cyffredin	Ateb
<b>Ble'n union fydd y tyrbinau'n mynd?</b>	Bydd y tyrbinau'n sefyll o fewn ffin y safle a nodir ar y wefan. Bydd eu hunion leoliad yn dibynnu ar ganlyniadau'r arolygon technegol ac amgylcheddol amrywiol sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn ogystal ag ymgynghoriad â'r cymunedau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill.
<b>Pa arolygon ydych chi wedi'u cynnal ar y safle?</b>	Hyd yma, rydyn ni wedi cynnal pob math o arolygon gan gynnwys arolygon adar, arolygon treftadaeth, arolygon awyrennau ac arolygon cynefinoedd.
<b>Faint o dyrbinau fydd yno, a pha mor dal byddan nhw?</b>	<p>Uchafswm capasiti'r safle yw 25.2MW. Mae capasiti'r prosiect wedi'i gyfyngu i hynny gan taw dyma faint o gysylltiad mae'r prosiect wedi'i sicrhau â'r rhwydwaith grid presennol.</p> <p>Yn y cyfnod cynnar hwn, rydyn ni'n rhagweld y bydd rhwng 5 a 7 tyrbinau gyda'r nifer terfynol yn dibynnu ar faint y tyrbinau y gallwn ei gludo i'r safle yn ymarferol. Bydd blaenau'r llafnau'n cyrraedd uchder o rhwng 149.9 metr a 200 metr, gyda'r penderfyniad terfynol yn dibynnu ar ganlyniadau'r arolygon gwahanol a'r prosesau ymgynghori a gynhelir gennym yn y dyfodol.</p>



Cwestiynau cyffredin	Ateb
<p><b>Mae gan Geredigion lawer o dyrbinau gwynt eisoes - pam mae angen mwy arnom?</b></p>	<p>Mae Cymru ar flaen y gad o ran ymladd yr argyfwng hinsawdd ac wedi gosod uchelgeisiau ynni glân sy'n arwain y byd, gan gynnwys targed i Gymru gynhyrchu 70% o'i thrydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2030. Ym mis Mai 2020, datganodd Ceredigion argyfwng hinsawdd byd-eang i gyd-fynd ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Bydd y prosiect hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn helpu Cymru i gyrraedd ei thargedau, wrth gynnig lluo o fanteision i'r gymuned leol, gan gynnwys cynnig perchnogaeth gymunedol arloesol.</p>
<p><b>Ydych chi'n cynllunio Cam 2 neu estyniad i'r prosiect?</b></p>	<p>Does gan Belltown ddim cynlluniau ar gyfer Cam 2 nac estyniad i'r prosiect ar hyn o bryd, ac mae ein hunig weithgaredd yn yr ardal wedi'i gyfyngu i'r prosiect hwn. Yr ardal ddatblygu arfaethedig sydd yn y mapiau yw maint y tir sydd wedi'i sicrhau ac sydd â chyswllt grid ar gael. Bydd y prosiect yn cael ei gyfyngu i 25.2MW oherwydd mai dyna'r capasiti sydd wedi'i sicrhau i'r rhwydwaith grid lleol - hyd y gwyddom, does dim capasiti ychwanegol ar gael ar y rhwydwaith hwnnw.</p>
<p><b>Pa mor dal bydd y tyrbinau?</b></p>	<p>Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnig tyrbinau â blaenau llafnau sy'n cyrraedd uchder o rhwng 149.9m a 200m. Cynhelir proses ymgynghori gynhwysfawr i gael adborth ar y dyluniad a'r cynnig terfynol fel y gallwn fireinio'r cynllun cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio.</p>
<p><b>Pam mae'r tyrbinau mor dal?</b></p>	<p>Mae'r diwydiant yn symud tuag at dyrbinau mwy o faint a thalach am resymau gwahanol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Er mwyn i fferm wynt fod yn ddichonadwy mewn marchnad ddi-gymhorthdal, mae angen i'r offer fod yn fwy o faint, yn fwy effeithlon ac wedi'u lleoli yn y manau mwyaf gwyntog. Gorau po dalaf y tyrbinau er mwyn sicrhau cyflymder gwynt uwch a gwell gallu i gipio ynni.</li> <li>• Wrth i dyrbinau gynyddu mewn maint, maen nhw'n fwyfwy effeithlon ac felly mae bellach yn bosibl harneisio llawer mwy o ynni gwynt fesul uned o dir. Mae tyrbinau mwy newydd yn cynnig budd llawer gwell i'r hinsawdd</li> <li>• Mae gweithgynhyrchwyr yn darparu ar gyfer marchnad fyd-eang o ffermydd gwynt ar y tir ac ar y môr. O'r herwydd, erbyn hyn dyw llawer o gyflenwyr ddim yn cynhyrchu'r tyrbinau llai a osodwyd ar ffermydd gwynt sydd eisoes ar waith.</li> </ul> <p>Rheswm arall pam mae angen tyrbinau talach ar y safle penodol hwn yw oherwydd eu bod yn cael eu codi ar safle coedwigaeth masnachol, sy'n golygu bod angen mwy o bellter clir rhwng bôn llafn y tyrbinau a'r coed cyfagos.</p>
<p><b>Beth yn union fydd yn cael ei adeiladu ar y safle?</b></p>	<p>Bydd cyfuniad o dyrbinau gwynt, traciau mynediad, is-orsaf, mast tywydd dros dro, ac, o bosibl, rhai cyfleusterau storio mewn batris yn cael eu hadeiladu o fewn ffin y safle. Hefyd, bydd cymysgedd o geblau uwchben a cheblau tanddaearol o is-orsaf y safle i'r pwynt cyswllt yn BSP Llanbedr Pont Steffan.</p>

# Effaith (2)



Cwestiynau cyffredin	Ateb
Ble mae'r tai agosaf?	Byddwn yn ymgynghori â phob cartref sy'n agos at y safle ac yn ei ystyried wrth benderfynu ar gynllun terfynol y fferm wynt.
<b>A fydda i'n gallu gweld y tyrbinau o fy nghartref?</b>	Dyw cynllun terfynol y fferm wynt ddim gennym ar hyn o bryd. Yn dilyn adborth o'n hymgyngoriadau cyhoeddus cychwynnol (ar gyfer dechrau 2023) ac o'n harolygon safleoedd parhaus, byddwn yn cynhyrchu lluniau o leoliadau sy'n cynrychioli'r cymunedau lleol, a bydd y rhain yn cael eu defnyddio i drafod unrhyw effeithiau gweledol posibl gyda Chyngor Ceredigion. Bydd lleihau gwelededd o gymunedau lleol a derbynyddion sensitif yn ystyriaeth allweddol wrth i ddyluniad y prosiect esblygu.
<b>Pa effaith a gaiff y prosiect ar y diwydiant ymwelwyr lleol?</b>	Mae astudiaethau gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi dod i'r casgliad nad yw ffermydd gwynt yn cael effaith sylweddol ar dwristiaeth yn lleol.
<b>Beth am draffig yn ystod y gwaith adeiladu?</b>	<p>Rydyn ni wedi ymrwymo i leihau unrhyw amhariad yn ystod cyfnod adeiladu'r prosiect. Mae gan Belltown brofiad sylweddol o reoli cyfnod adeiladu ffermydd gwynt.</p> <p>Yn y cyfnod cynnar hwn, rydyn ni wrthi'n cwblhau ein llwybr dewisol i'r safle. Os caiff y prosiect ei ganiatáu, byddem yn defnyddio gwasanaeth rhybudd negeseuon testun yn ystod y cyfnod danfon nwyddau, felly cyn gynted ag y cytunir ar slot danfon gyda'r heddlu, byddwn yn tecstio trigolion lleol i ddweud lle, pryd ac am ba hyd fydd pob slot danfon yn para, fel y gallant gynllunio eu diwrnod yn unol â hynny. Ar gyfer y prosiect hwn, mae'n debygol y bydd angen danfon 10 cydran ar gyfer pob tyrbina. Byddem yn gweithio gyda'r Heddlu i gytuno ar waith cludo ac yn gwneud hynny ar adegau tawel pan fo hynny'n bosib. Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl tua 30 confoi dros gyfnod o 4-6 wythnos ar gyfer y prosiect hwn.</p>
<b>A fydd y prosiect yn swnllyd?</b>	Yn dilyn arolygon ac ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn cynnal asesiad desg o'r sŵn yn seiliedig ar y cynllun canlyniadol i nodi a oes unrhyw botensial i sŵn effeithio ar rai o'r tai. Byddwn wedyn yn gweithio gyda Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y cyngor i gytuno a oes unrhyw eiddo a allai fod yn sensitif i sŵn. Os oes, byddem yn monitro'r lefelau sŵn sylfaenol yn y man agosaf o'r rhain (yn amodol ar ganiatâd y tiffeddiannwr) am ychydig o wythnosau er mwyn pennu'r lefelau sŵn cefndir. Yna, byddem yn asesu a fyddai unrhyw un o'r tyrbinau arfaethedig yn arwain at gynnydd annerbyniol mewn sŵn mewn unrhyw eiddo. Os bydd canlyniadau'n awgrymu cynnydd annerbyniol, byddem wedyn yn cynnig lliniaru fel rhan o'n cais cynllunio. Gallai hyn gynnwys microleoli neu redeg rhai tyrbinau mewn modd sain isel (pŵer isel) yn ystod tywydd penodol er mwyn atal y sŵn rhag lledaenu. Pe bai'n cael ei ganiatáu, byddai unrhyw gamau lliniaru arfaethedig yn un o amodau'r caniatâd.

# Effaith (3)



Cwestiynau cyffredin	Ateb
<b>A fydd unrhyw effaith ar fywyd gwylt?</b>	Mae Belltown wedi ymrwmo i sicrhau mantais net o ran bioamrywiaeth drwy ei ddatblygiadau. Fel rhan o'r broses ddatblygu, byddwn yn cynnal nifer o arolygon ecolegol, arolygon ar adar ac arolygon ar gynefinoedd i feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o fflora a ffawna naturiol y safle. Er mwyn galluogi hyn, mae nifer o arolygon yn cael eu cynnal i roi gwybodaeth am ecoleg leol ac effeithiau posibl, a bydd y rhain yn cyfrannu at y dyluniad terfynol. Yn Belltown, rydyn ni'n credu'n gryf y dylai ein safleoedd fod o fudd i'r amgylchedd lleol ac felly rydyn ni'n asesu sut y gallwn wella a mireinio'r cyfalaf naturiol a bioamrywiaeth ar ein safleoedd a defnyddio cynllun rheoli amgylcheddol sy'n rheoli'r mesurau gwella bioamrywiaeth a roddwyd ar waith.
<b>A fydd mwy o wifrau uwchben (ar y safle ei hun ac er mwyn cysylltu â'r grid)?</b>	Bydd angen rhywfaint o geblau uwchben ar bolion pren bach (yr un fath â'r rhai a welwch ar hyd ffyrdd) er mwyn cysylltu'r prosiect ag is-orsaf Llanbedr Pont Steffan. Byddwn yn cynllunio'r llwybr cysylltu a'r seilwaith dewisol i leihau unrhyw effaith ar yr ardal leol. Mae foltedd cysylltiad y prosiect hwn yn 33kV, sef y seilwaith cysylltiad lleiaf a lleiaf rhwystrol sydd ar gael i brosiectau gwynt ar raddfa fawr.  Bydd ceblau rhwng seilwaith ar y safle yn cael eu gosod dan y ddaear.
<b>Ble fydd y prosiect yn cysylltu â'r grid? A oes digon o gapasiti yn y grid?</b>	Mae'r prosiect wedi sicrhau cysylltiad 25.2MW â BSP Llanbedr Pont Steffan, sydd tua 13km i ffwrdd o ardal datblygu'r prosiect. Ar hyn o bryd, does dim capasiti ychwanegol ar y rhwydwaith grid presennol y tu hwnt i'r capasiti sydd wedi ei sicrhau ar gyfer y prosiect hwn.

Cwestiynau cyffredin	Ateb
<p><b>Pa fanteision fydd i'r gymuned lleol?</b></p>	<p>Yn Belltown Power, rydyn ni'n credu'n gryf y dylai prosiectau ynni adnewyddadwy fod o fudd i'r cymunedau sy'n eu cynnal. Os caiff ei ganiatáu, bydd Hyb Ynni Gwynt Waun Maenllwyd yn darparu £5,000 / MW (yn unol â'r mynegai) y flwyddyn mewn buddion cymunedol i'r ardaloedd lleol hynny sydd wedi'u heffeithio gan y prosiect. Yn seiliedig ar gapasiti o 25.2MW, byddai hyn yn cyfateb i £126,000 mewn buddion cymunedol i gymunedau lleol bob blwyddyn, cyn mynegeo. Yn dibynnu ar yr hyn mae cymunedau ei angen - a'i eisiau - gallwn dalu rhywfaint o'r swm hwn neu'r cyfan ohono ymlaen llaw.</p> <p>Bydd yr arian hwn ar gael i gymunedau fuddsoddi mewn mentrau sydd eu hangen fwyaf ar y gymuned, prynu perchnogaeth ychwanegol a/neu tuag at dalu biliau trydan trigolion lleol.</p>
<p><b>Beth mae'r berchnogaeth gymunedol yn ei gynnig?</b></p>	<p>Bydd cymunedau sy'n lleol i Hyb Ynni Gwynt Waun Maenllwyd yn elwa drwy ein cynllun perchnogaeth gymunedol arloesol. Hoffem wneud mwy na dim ond cynnig cyfle i fuddsoddi'n lleol yn ein prosiectau a galluogi pawb i fanteisio ar berchnogaeth gymunedol mewn ffordd sydd o fudd i bawb. Mae cynllun Perchnogaeth Gymunedol Belltown yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi 1% o ecwiti'r prosiect i sefydliadau cymunedol lleol am ddim.</li> <li>• Eu galluogi i brynu 4% arall o'r ecwiti am bris y gost unwaith y bydd y prosiect yn weithredol.</li> <li>• Cynnig cymaint o berchnogaeth bellach ag y maen nhw'n dymuno ei gael yn ôl pris y farchnad (hyd at 49% o gyfran ecwiti).</li> </ul> <p>Byddwn yn fwy na pharod i drafod hyn gyda phartïon sydd â diddordeb - cysylltwch â ni i gofrestru eich diddordeb.</p>
<p><b>Faint o drydan fydd y cynllun hwn yn ei gynhyrchu?</b></p>	<p>Byddai'r capasiti arfaethedig o 25.2MW yn darparu digon o ynni i bweru'r hyn sy'n cyfateb i oddeutu 18,500 o gartrefi y flwyddyn ac yn arwain at ostyngiad CO2 net o ryw 31,000 tonnell o CO2 y flwyddyn.</p>
<p><b>A fydd y fferm wynt yn creu unrhyw swyddi lleol?</b></p>	<p>Byddwn yn hyrwyddo cyflenwyr lleol yn ystod gwaith adeiladu'r prosiect drwy ymrwmo i ddyfarnu contractau i gwmnïau lleol sydd o fewn 10% i'r cynnig isaf ac yn bodloni gofynion amgylcheddol, ansawdd a diogelwch. Yn y tymor hwy, rydyn ni'n awyddus i gefnogi rhaglenni prentisiaeth neu gynlluniau hyfforddi y gellir eu hariannu drwy'r cynnig budd cymunedol. Hefyd, nod ein rhaglen addysg yw addysgu'r genhedlaeth nesaf am ynni adnewyddadwy gan obeithio y bydd yn ysbrydoli gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant adnewyddadwy yn y dyfodol.</p>



Cwestiynau cyffredin	Ateb
<p><b>Pwy sy'n penderfynu a yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen?</b></p>	<p>Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar y cais yn y pen draw. Yng Nghymru, mae unrhyw orsaf gynhyrchu ynni sy'n fwy na 10MW o ran capasiti yn cael ei ystyried yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ac yn cael ei benderfynu gan Weinidogion Cymru. Is-adran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yw'r corff sy'n gyfrifol am ymdrin â cheisiadau.</p> <p>Mae'r broses gynllunio yn gofyn am ymgynghori cynhwysfawr â rhanddeiliaid lleol ac awdurdodau cynllunio lleol fel Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Gâr, a bydd yn ofynnol i bob un ohonyn nhw gyflwyno Adroddiadau Effaith Lleol.</p>
<p><b>Pryd fydd y prosiect yn cael ei gyflwyno?</b></p>	<p>Er bod amserlenni'n dal yn hyblyg, rydyn ni'n rhagweld y byddwn yn cyflwyno'r prosiect ar gyfer adolygiad cwmpasu yn gynnar yn 2023 gyda'r bwriad o gyflwyno cais ffurfiol erbyn dechrau 2024.</p>
<p><b>Os caiff y prosiect ei gymeradwyo, pryd fydd y gwaith adeiladu'n dechrau?</b></p>	<p>Yn seiliedig ar yr amserlenni uchod, rydyn ni'n disgwyl dechrau adeiladu ddechrau 2025.</p>
<p><b>Erbyn pryd y caiff y gwaith adeiladu ei gwblhau?</b></p>	<p>Mae'r gwaith adeiladu fel arfer yn cymryd rhwng 12 a 18 mis yn dibynnu ar faint y fferm wynt a'r tymor y dechreuir ar y gwaith adeiladu. O'r herwydd, ein dyddiad disgwylidig o ran rhoi popeth ar waith yn derfynol yw erbyn diwedd 2026. Dim ond dros gyfnod o wythnosau y bydd Llwyth Anwahanadwy Anghyffredin (AIL) yn cael eu derbyn.</p>
<p><b>A fyddwch chi'n ymgynghori â'r gymuned leol? Os felly, sut a phryd?</b></p>	<p>Heb os nac oni bai. Wrth i'n cynlluniau ddatblygu, byddwn yn ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau lleol drwy ddigwyddiadau anffurfiol ac, yn y pen draw, cynhelir proses ymgynghori ffurfiol i sicrhau bod trigolion lleol yn cael cyfle i gyfrannu eu mewnbwn at y prosiect. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n gobeithio cynnal arddangosfeydd cyhoeddus ac ymgynghoriad â'r cyhoedd yn 2023. Cofrestrwch ar ein gwefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y prosiect.</p> <p>Yn y cyfnod cynnar hwn, rydyn ni wedi cyflwyno gwybodaeth i Gyngor Cymuned Llanddewi Brefi ac wedi ymrwmo i ddarparu'r manylion diweddaraf yn rheolaidd. Hefyd, rydyn ni wedi cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Caerfyrddin i gyflwyno'r prosiect.</p> <p>Yn y cyfamser, ewch i wefan y prosiect i gael y newyddion diweddaraf. Mae croeso i chi gysylltu â ni am ragor o fanylion.</p>
<p><b>Os hoffwn wybod mwy am y prosiect, â phwy y dylwn gysylltu yn y lle cyntaf?</b></p>	<p>James Grey &amp; Louis Kirkup, Belltown Power</p> <p>Ffôn: 0117 303 5217 E-bost: <a href="mailto:waunmaenllwyd@belltownpower.com">waunmaenllwyd@belltownpower.com</a></p>